# PWYLLGOR CYNLLUNIO

**<u>Aelodau'n bresennol:</u>** **<u>Dydd Mawrth, 15 Chwefror 2022</u>**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Aelod S.Paddison** |
| **Is-gadeirydd:** | **Aelod S.Pursey** |
| **Cynghorydd**: | D.Keogh, R.Mizen, S.K.Hunt, A.N.Woolcock, C.Williams, S.Renkes a/ac M.Protheroe |
| **Swyddogion yn bresennol:** | C.Morris, M.Shaw, J.Griffiths, R.Borthwick, C.Davies, N.Lake, G.White a/ac T.Davies |

---

1. **<u>CROESO A GALW'R ENWAU</u>**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a galwyd yr enwau.

2. **<u>DATGANIADAU O FUDDIANNAU</u>**

Derbyniwyd y Datganiadau o Fuddiannau canlynol ar ddechrau'r cyfarfod:

Y Cynghorydd C Williams - Parthed Cais Rhif P2019/5560 – Tir gerllaw Gwesty'r Towers, Jersey Marine, gan ei fod yn adnabod yr ymgeisydd yn bersonol - roedd yn ystyried hyn yn fuddiant rhagfarnol, a gadawodd y cyfarfod a'r drafodaeth a'r pleidleisio ar hynny.

3. **<u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>**

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2022 fel cofnod cywir.

4. **<u>GWNEUD CAIS AM YMWELIAD (AU) SAFLE GAN Y CEISIADAU A GYFLWYNWYD</u>**

**PENDERFYNWYD:** Peidio â chynnal unrhyw ymweliadau safle ar y ceisiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor heddiw.

5. **CAIS RHIF P2019/5560 - TIR GERLLAW GWESTY THE TOWERS, JERSEY MARINE**

(Ar y pwynt hwn o'r cyfarfod, ailddatganodd y Cynghorydd C Williams ei fuddiant, gan adael y cyfarfod a'r drafodaeth a'r pleidleisio am hynny.)

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (Caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer datblygu unedau diwydiannol a swyddfeydd (Defnydd dosbarth B1, B2 a B8), yn ogystal ag isadeiledd cysylltiedig ar dir gerllaw gwesty The Towers, Ashleigh Terrace, Jersey Marine), fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2019/5560, yn unol ag argymhellion swyddogion.

6. **CAIS RHIF P2021/1206 - GLANNANT PLACE, CWMGWRACH**

(Dychwelodd y Cynghorydd C Williams i'r cyfarfod)

Gwnaed cyflwyniad gan swyddogion i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais (adeiladu annedd deulawr ar wahân gyda lle parcio a gwaith cysylltiedig yn Llain 1, Glannant Place, Cwmgwrach) fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2021/1206, yn unol ag argymhellion swyddogion.

7. **PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG - 17 IONAWR I 6 CHWEFROR 2022**

Nododd yr Aelodau'r rhestr o Benderfyniadau Dirprwyedig o 17 Ionawr i 6 Chwefror 2022.

**PENDERFYNWYD:** nodi'r adroddiad.

8. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**